# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 14 Hydref 2025** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH** |
| **CADEIRYDD** | **Olwen Roberts** |

<table>
<tr><td>1.</td><td>Croeso:<br>Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan Olwen Roberts (Cadeirydd)</td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Presennol:<br>Olwen Roberts (OR), Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG), Osian Williams (OS), William Jones (WJ), Griffith Jones (GJ), Emlyn Williams (EW)<br><br>Ymddiheuriadau gan:<br>Lois Fychan (LF), Sianelen Pleming (SP), Gethin Jones (GJ), Derek Thomas (DT)<br><br>Heb datgarn ymddiheuraidau o flaen llaw at y cyfarfod:<br>Ynyr Elis (YE)<br><br>JG - mae wir angen dilyn canllaw Un Lais Cymru ‘Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb’ - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae’r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o’r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis’.</td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Datgan diddordeb:<br>Neb</td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf - Medi 2025.<br>Cyflwynwyd y cofnodion a chynigodd OR eu bod yn gywir ac eiliodd OW.</td></tr>
<tr><td>5.</td><td>Materion yn codi:<br>1. Rhoi rhwngrwyd yn y Ganolfan – OJ (Cadeirydd) pleidleisio hefo OW yn ailio. JG, WJ, EW, GW ac OW o blaid. Penderfyniad: GJ i edrych i mewn i’r gost o osod rhwydwaith rhyngrwyd yn y Ganolfan, a’r Clerc i chwilio am grantiau addas i gefnogi hyn.<br>2. Nodwyd fod nifer o Gynghorau Cymuned eraill eisoes â thudalen agored Facebook. Penderfyniad: I’w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br>3. Bocs Pethau’r cyn Glerc. Penderfyniad: I’w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br>4. Fainc Pistyll / Llithfaen – Diweddariad: GW i dynnu llun a mesur y fainc er mwyn i’r Clerc allu adnabod y fainc priodol ar wefan cwmni Glasdon.<br>5. Wal mynwent Pistyll. Diweddariad: Mae’r wal wedi’i thrwsio; lluniau cyn ac ar ôl wedi’u hanfon at y Clerc a siec wedi’i hanfon drwy law GW.<br>6. Tori Gwellt mynwent Pistyll. Diweddariad: Cytundeb 2–3 blynedd gyda Dewi Hughes<br>7. Enwau newydd i arwyddo Sieciau CCPistyll / System Bancio newydd. Diweddariad: EW wedi’i ychwanegu fel arwyddwr sieciau. GJ i edrych i mewn i system bancio ar-lein. Clerc i gyflwyno’r gwaith papur Mandate i HSBC Pwllheli<br>8. Gordyfiant yn ardal Capel Isaf/Pont Minafon - Diweddariad: Ebost gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod mis Hydref.<br>9. Anfoneb Hyfforddiant Unllais - Diweddariad: Anfoneb £84 ar gyfer hyfforddiant SP a LM. Siec wedi’i harwyddo; Clerc i’w phostio.<br>10. Ebost gan Chynghorau Cymuned a Threfi Pen Llyn a Phwllheli / Tracy Gilmartin (Un Llais Cymru) Penderfyniad: Clerc i anfon yr holl e-byst perthnasol ymlaen at aelodau ar eu cyfeiriad e-bost swyddogol CCPistyll.<br>11. Cronfa Croeso Cynnes wedi ail agor am ceisiadau hyd at £1,000. Penderfyniad: Clerc i anfon yr holl e-byst perthnasol ymlaen at aelodau ar eu cyfeiriad e-bost swyddogol CCPistyll.<br>12. Cyfarfod Pwllgor Ardal Arfon Dwyfor angen enwediadau i fynychu cyfarfod zoom 22/10 7yh. Penderfyniad: Clerc i fynychu ar ran y Cyngor.<br>13. Siaradwraig Gwadd – Bethan Williams (Oed Gyfeillgar Gwynedd). Penderfyniad: Clerc i estyn gwahoddiad drwy e-bost i fynychu’r cyfarfod nesaf a siarad am ei gwaith.</td></tr>
<tr><td>6.</td><td>Gwefan CCPistyll:<br>https://www.ccpistyll.cymru</td></tr>
<tr><td>7.</td><td>Diweddariad Cyllidol gan y Cadeirydd (OR)<br>Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusenol: £18,494.98 a Cyfrif Cadw: £2,792.90<br>Sylw gan OR (Cadeirydd): Bob dim wedi’i ddiweddaru ac yn gyfredol.<br><br>Diweddariad Asedau:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll (dan ofal GJ). Cyngor Cymuned Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri newydd.<br>• Gysgodfannau Bws (2)<br>• Mainc (2) Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen.<br>• Maes Parcio – Ben Nant<br>• Biniau Baw Ci (4) - 3 ym Mhistyll ac 1 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant.<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **8.** | **Pwyllgor y Ganolfan**<br>Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>**EW** – Dŵr budr yn codi i'r ffordd ger y Siop ers y tywydd sych. Ymddengys bod y 'manhole' yn llawn ac angen cysylltu â Dŵr Cymru.<br>**Penderfyniad:** Clerc i anfon e-bost at Dŵr Cymru i roi gwybod am y broblem.<br><br>**GJ** – Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn llenwi tyllau yn y ffordd, ond nid ydynt wedi rhoi tarmac ar y ffordd cynfan. Nodwyd hefyd fod yr arwyddion paent ar y ffordd, yn enwedig y llinellau gwyn a'r marciau ar y twmpathau traffig, angen eu paentio.<br>**Penderfyniad:** Clerc i holi gyda Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn a oes cynllun i adnewyddu'r marciau ffordd.<br><br>**JG** - Mae cynlluniau tai newydd yn Trefor, ond dim un yn Llithfaen hyd yn hyn, er bod rhestr aros ar gyfer Llithfaen ac dim ond canran fach ar y rhestr Llithfaen sydd â chysylltiadau uniongyrchol â'r ardal.<br>Pwysleisiodd JG bwysigrwydd rhoi blaenoriaeth i bobl leol ac amodau iaith i gynnal cymuned Trefor a'r ysgol gynradd.<br>**Penderfyniad:** Clerc i anfon llythyr at Grŵp Cynefin i ofyn am fwy o wybodaeth am y cynlluniau, gan holi a oes amod iaith Gymraeg ac a fydd cyfleoedd i deuluoedd lleol gyda phlant i gadw'r ysgol gynradd. Cc i Cynghorydd Jina Gwyrfai |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf:**<br>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth, 11 Tachwedd 2025, am 7.00yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH. |